

Rheoli Tyfiant Clymog Japan  
yn Rhondda Cynon Taf

Canllaw  
Gwybodaeth



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE  
**RHONDDA CYNON TAF**  
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

# Rheoli Tyfiant Clymog Japan yn Rhondda Cynon Taf

## Sut mae cael gwared â Chlymog Japan?

Mae dulliau cost effeithiol ar gael ar gyfer rheoli Clymog Japan (enwau eraill: Canclwm Japan; Llysiâu'r Cythraul; Llysiâu'r Dial), a chael gwared arno yn y pen draw. Mae modd gwneud hyn trwy roi plaladdwyr priodol ar y planhigyn ar yr adeg iawn o'r flwyddyn.

## Oes modd i Berchennog/Meddiannydd y tir wneud hyn?

Oes, ond, ar ôl cyfrifo cost y plaladdwyr a'r offer ar gyfer defnyddio'r plaladdwyr, ynghyd â'r perygl llygredd posibl, mae'n bosibl byddai'n syniad da i ddefnyddio contractwr arbenigol. Byddai hynny hefyd yn rhoi sicrwydd bod y gwaith yn cael ei wneud yn unol â chodau ymarfer sydd wedi'u cymeradwyo.

## Rydw i'n byw wrth ymyl cwrs dŵr, ac mae Clymog Japan yn tyfu ar y glannau. Pwy sy'n rheoli lledaeniad y chwyn ar hyd glannau'r cwrs dŵr?

Gall eiddo wrth ymyl cyrsiau dŵr olygu mai chi sydd â'r cyfrifoldebau torlannol, sy'n cynnwys trin Clymog Japan. Mae'n bosibl dydy perchnogaeth dorlannol ddim yn cael ei hamlygu yn nofennau'r eiddo.

<https://www.gov.uk/government/publications/riverside-ownership-rights-and-responsibilities>

Hefyd, wrth gynnal gwaith o fewn 10 metr i gwrs dŵr bydd angen cymeradwyaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Ffôn: 0300 060 3000

## Beth fydd angen ei wneud yn rhan o'r driniaeth?

Gall chwynladdwr, sydd wedi'i gymeradwyo, gael ei roi ar lystyfiant byw pan fydd y planhigyn wedi cyrraedd ei uchder aeddfed. Mae Clymog Japan, fel arfer, yn cyrraedd ei uchder aeddfed erbyn diwedd mis Gorffennaf. Fel arfer, y cyfnod trin yw mis Awst tan ddechrau mis Hydref.

Gall y driniaeth gyntaf lwyddo i ladd 95% o'r planhigyn, ond, mae'n bwysig ailadrodd y driniaeth am o leiaf ddwy flynedd arall. Os bydd rhywbeth yn aflonyddu ar y tir neu'r planhigyn o gwbl, mae'n bosibl bydd angen estyn y driniaeth.

Hefyd, yn ystod cyfnod y driniaeth, mae'n bwysig iawn peidio ag aflonyddu ar yr ardal. Os bydd rhywbeth yn aflonyddu ar y tir, bydd perygl achosi rhagor o dyfiant.

## Pam mae cyfnod y driniaeth mor hir?

Mae'n bosibl i system wreiddiau'r planhigyn Clymog Japan fynd mor ddwfn â 3 metr. Bydd y driniaeth yn y flwyddyn gyntaf yn lladd y system wreiddiau yn rhan uchaf y pridd. Bydd y triniaethau dilynol yn effeithio ar dyfiant o rannau isaf y system wreiddiau.

Os bydd rhywbeth yn aflonyddu ar y ddaear lle mae'r planhigyn yn tyfu, bydd perygl codi rhan isaf y system wreiddiau i'r wyneb a'i gwneud hi'n haws i'r planhigyn ailsefydlu. Drwy roi llonydd i'r ddaear, bydd egni'r gwreiddiau isaf yn cael ei ddefnyddio cyn bydd modd anfon egin/tyfiant i'r wyneb.

Ar ôl pob triniaeth, bydd modd torri'r coesynnau marw, a chael gwared â nhw. Ond, mae'n bwysig peidio â thynnu'r coesynnau hynny allan o'r ddaear – rhaid eu torri nhw. Gall tynnu'r coesynnau achosi tyfiant yn y gwanwyn dilynol.

## Mae fy eiddo ar werth, ond, does dim modd i mi ei werthu oherwydd mae Clymog Japan ar fy eiddo. Beth alla i ei wneud?

Os yw'ch tŷ chi ar werth, byddai'n syniad da i chi gael cyngor gan eich cwmni morgais/syrfêwr ar leoliad y planhigyn a pha mor bell ydyw o eiddo cyfagos. Hefyd, dylech chi gael disgrifiad manwl o'r risg a lefel y bygythiad i'r eiddo sydd o amgylch y planhigyn.

Wedyn, dylech chi geisio cyngor ar drin y planhigyn gan gwmni proffesiynol, sydd â chymwysterau priodol. Beth y dylwn ni ei ddisgwyl gan yr arbenigwr? Yn gyffredinol,

dylai'r darparwr morgais gael adroddiad gan yr arbenigwr sydd wedi'i benodi. Dylai hyn nodi lleoliad y planhigyn a rhaglen weithredu ar gyfer cael gwared ag ef.

### **Beth y dylwn ni ei ddisgwyl gan yr arbenigwr?**

Yn gyffredinol, dylai'r darparwr morgais gael adroddiad gan yr arbenigwr sydd wedi'i benodi. Dylai hyn nodi lleoliad y planhigyn a rhaglen weithredu ar gyfer cael gwared ag ef.

Yn ogystal â gweithredu'r rhaglen ar gyfer cael gwared â'r planhigyn, mae'n bosibl bydd angen i chi, fel gwerthwr yr eiddo, roi gwarant ar gyfer y driniaeth. Mae'n bosibl bydd angen i warant o'r fath fod ar waith am gyfnod o bum mlynedd ar ôl gwerthu'r eiddo.

Dydy pob darparwr morgeisi ddim yn fodlon ar gynigion o'r fath, felly, bydd rhaid i chi gael gwybod gan y darpar-brynwyr beth fydd ei angen ar eu benthyciwr er mwyn bodloni meini prawf y benthyciad.

### **Does dim Clymog Japan ar fy eiddo, ond, mae'r planhigyn i'w weld ar dir cyfagos ac mae'n fy atal rhag gwerthu fy eiddo.**

Mae Clymog Japan yn niwsans preifat nid yn niwsans cyhoeddus. Mae'n bwysig trafod â pherchennog y tir cyfagos. Os does dim modd i chi siarad â'r perchennog, dylech chi gyfathrebu yn ysgrifenedig (a defnyddio dull dosbarthiad wedi'i gofnodi).

Os dydych chi ddim yn gwybod pwy yw perchennog y tir, mae modd gofyn i'r Gofrestrfa Tir chwilio amdano: [www.gov.uk/government/organisations/land-registry](http://www.gov.uk/government/organisations/land-registry)

Does dim rheidrwydd ar yr Awdurdod Lleol i ymyryd a datrys effaith Clymog Japan sy'n tyfu ar dir preifat. Serch hynny, mae gan yr awdurdod rym ym maes ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod modd iddo ymdrin â'r henoed a phobl sy'n agored i niwed, yn ogystal ag ymyryd mewn achosion lle mae ymddygiad perchennog y tir yn cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y bobl leol.

O dan yr amgylchiadau eithriadol yma, mae modd cyflwyno "Hysbysiad Amddiffyn Cymunedol" i berchennog y tir os yw'n ymddwyn yn afresymol drwy adael i Glymog Japan dyfu ar ei dir, a'i fod yn effeithio ar eiddo cyfagos.

Byddai torri unrhyw un o ofynion yr Hysbysiad Amddiffyn Cymunedol, heb esgus rhesymol, yn drosedd sy'n agored i hysbysiad cosb benodedig neu erlyniad. Caiff perchnogion eiddo ddirwy hyd at £2500.

Er mwyn defnyddio grym o'r fath o dan yr amgylchiadau sydd wedi'u nodi, mae angen dangos eich bod chi wedi rhoi gwybod i'r perchennog am y broblem, a'i fod wedi anwybyddu ceisiadau i geisio cael gwared â'r chwyn.

Yn ogystal â hynny, gallech chi ystyried cael gafael ar bolisi bond drwy Gwmni Yswiriant. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r costau posibl sy'n gysylltiedig â chael gwared ar Glymog Japan yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu y bydd arian yn cael ei roi mewn bond. Bydd modd hawlio'r arian yma er mwyn talu am unrhyw waith sy'n angenrheidiol.

### **Rydw i wedi cael gwybod bod Clymog Japan yn tyfu ar fy eiddo, a'i fod e'n achosi problemau i'r cymdogion. Rydw i eisiau cael gwared ag ef.**

Peidiwch â chynhyrfu, a peidiwch â gwneud rhywbeth byrbwyll, fel torri'r planhigyn! Gall camau o'r fath achosi oedi o ran sicrhau canlyniad cadarnhaol, a gall fod yn ddrud i'w ddatrys.

Mae Clymog Japan yn broblem, a gall fod yn niweidiol i'ch eiddo chi ac i dir cyfagos. Mae'n bosibl i chi wneud y gwaith, ond, heb y deunyddiau a'r offer cywir, mae modd i hyn gostio mwy na defnyddio arbenigwyr. Rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n cysylltu ag arbenigwr addas er mwyn trefnu iddo gael gwared ar y planhigyn, a rhoi gwarant i chi rhag ofn i'r broblem godi eto. Efallai bydd angen tystiolaeth o'r driniaeth ar berchnogion tir cyfagos.

Byddai'n syniad da i chi gymryd camau. Mae rhaid i chi gydweithredu a gwneud ymdrech resymol i wneud iawn am y problemau sy'n codi.

# CLYMOG JAPAN BETH I EDRYCH AMDANO CANLLAW GWELEDOL

## Gwanwyn ac aildyfiant ar ôl ei dorri

**Beth i'w wneud:**

*Gwneud dim, a gadael iddo dyfu*



## Dechrau'r haf (mis Mai hyd at ganol mis Awst)

**Beth i'w wneud:**

*Gwneud dim, a gadael iddo dyfu*



## Gorffennaf–Tachwedd

**Beth i'w wneud:**

*Defnyddio chwynladdwr, sydd wedi'i gymeradwyo – mae modd ei chwythu ar y dail neu ei chwistrellu i mewn i'r coesyddau, o ganol mis Awst hyd at wythnos gyntaf mis Hydref*



## Gaeaf ac ar ôl triniaeth effeithiol

**Beth i'w wneud:**

*Rhoi llonydd iddo, ond mae modd torri coesyddau marw (peidiwch â'u tynnu nhw allan o'r ddaear).*

